Papur 3 – Llythyr at Lywodraeth Cymru
Paper 3 – Letter to Welsh Government

Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

10 Gorffennaf 2019

Budd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well

Annwyl Weinidog

Diolch am roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor fel rhan o'r ymchwiliad hwn. Hoffem gael rhagor o wybodaeth am nifer o faterion.

**Undeb Cymdeithasol**

Fel y cofiwch, gwnaethom edrych ar gysyniad yr undeb cymdeithasol gyda chi. A allwch chi roi rhagor o eglurder ynghylch pa fudd-daliadau y teimlwch y byddai eu datganoli yn gwanhau'r undeb cymdeithasol? Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Pwyllgor ddeall yn well beth yn union y mae Llywodraeth Cymru yn ei ystyried y 'tu hwnt i'r terfyn'.

**Diffiniad o weinyddiaeth**

Mater arall yr edrychwyd arno oedd y diffiniad o 'weinyddiaeth'. Rydym yn deall y rhyng-chwarae cymhleth rhwng gweinyddiaeth, deddfwriaeth a pholisi yn y maes hwn, fel yr amlygodd y Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi i ni. Dywedasoch fod Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi'i chomisiynu i edrych ar 'ddatganoli gweinyddiaeth' budd-daliadau lles, a hoffem gael rhagor o eglurder ynghylch sut y gwnaethoch ddiffinio 'gweinyddiaeth' ar gyfer Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

**Cysylltiadau rhynglywodraethol**

Un o'r materion y bu'r Pwyllgor yn edrych arno yw rôl fframweithiau rhynglywodraethol. Er enghraifft, a ydych o'r farn y byddai'n fuddiol cryfhau trefniadau presennol y Cydbwyllgor Gweinidogion i ddarparu fframwaith mwy ffurfiol i drafod effeithiau penderfyniadau polisi ar lefel ddatganoledig ac ar lefel heb ei ddatganoli ar genhedloedd eraill y DU. A fydd y mater o nawdd cymdeithasol yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad o sut mae adrannau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Llywodraeth y DU yn ymdrin â datganoli, a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ar 4 Gorffennaf?

**Ymgorffori barn pobl sydd â phrofiad byw o ddylunio, gweithredu a gwerthuso polisi.**

Un o'r negeseuon cryfaf a ddeilliodd o'n hymweliad diweddar â'r Alban oedd pa mor ganolog oedd profiad byw pobl i ddylunio, gweithredu a gwerthuso'r newidiadau i'r system fudd-daliadau. Roedd yn amlwg bod hyn yn rhywbeth yr oedd pawb a oedd yn rhan o'r system yn ei gymryd o ddifrif. Clywsom adborth cadarnhaol gan y trydydd sector ynghylch pa mor ystyrlon oedd yr ymgysylltiad hwn, a sut yr oedd yn helpu i ddylunio system sy'n canolbwyntio rhagor ar bobl.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth siaradodd y Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi am sut yr oedd ymgysylltu â'r cyhoedd yn "greiddiol" i ddull gweithredu'r Llywodraeth o ran dylunio polisi, a nododd newidiadau i'r broses o wneud cais a'r meini prawf cymhwyster ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael rhywfaint o fanylion pellach ar sut y gwnaethoch ymgysylltu â phobl â phrofiad byw o gynllunio'r newidiadau hyn. A wnaethoch hefyd gynnwys pobl â phrofiad byw fel rhan o unrhyw werthusiad dilynol o'r newidiadau?

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir

John

John Griffiths

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English